Y
Comisiwn
Etholiadol

# Cod Ymarfer ar gyfer Arsyllwyr Etholiadol

Wedi'i gyhoeddi o dan adrannau 6F a 6G o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Mewn perthynas ag etholiadau a gedwir yn ôl, refferenda a deisebau etholiadol:

- a osodwyd gerbron pob Tŷ Seneddol yn unol ag adran 6F(5) PPERA yn dilyn ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 6F(4) PPERA a
- a gyhoeddwyd o dan adran 6F(6) PPERA.

Mewn perthynas ag etholiadau cyffredinol Senedd yr Alban, etholiadau o dan adran 9 o Ddeddf yr Alban 1998 ac etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban:

- a osodwyd gerbron Senedd yr Alban yn unol ag adran 6G(5) PPERA yn dilyn ymgynghori â Gweinidogion yr Alban o dan adran 6G(4) PPERA a
- a gyhoeddwyd o dan adran 6G(6) PPERA.

- a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol ag adran 6G(6) PPERA ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru o dan adran 6G(5) PPERA a
- a gyhoeddwyd o dan adran 6G(7) PPERA.

## Ynglŷn â'r Cod hwn

**Rhagarweiniad**

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) am achredu unigolion a sefydliadau sydd am arsylwi prosesau etholiadol mewn etholiadau, refferenda perthnasol[1] a rhai deisebau adalw a gynhelir yn y Deyrnas Unedig. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol hefyd gynhyrchu Cod Ymarfer ar bresenoldeb arsyllwyr mewn etholiadau.

**Y Cod hwn a chanllawiau eraill a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol.**

Mae'r Cod hwn yn god ymarfer statudol.

Rhaid i'r Comisiwn Etholiadol, cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol, arsyllwyr achrededig a swyddogion perthnasol[2] roi sylw i'r Cod hwn wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud ag arsylwi digwyddiadau etholiadol.

Mae'r Cod hwn yn wahanol i unrhyw godau neu ganllawiau anstatudol y mae'r Comisiwn Etholiadol yn eu cyhoeddi oherwydd ei fod wedi'i osod yn Senedd y DU, Senedd Cymru a Senedd yr Alban.

Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd yn cyhoeddi canllawiau anstatudol am y Cynllun Arsyllwyr Etholiadol ac yn cyhoeddi canllawiau cyfredol am ba etholiadau sy'n cael eu cynnal a pha gyfreithiau sy'n berthnasol ar ei wefan.

Pan fod y Cod hwn neu unrhyw ganllawiau cysylltiedig yn dweud bod rhaid gwneud rhywbeth, mae hynny'n golygu ei fod yn ofyniad naill ai mewn deddfwriaeth sylfaenol neu mewn is-ddeddfwriaeth.

Pan mae'r Cod hwn yn cyfeirio at 'ddigwyddiadau etholiadol', mae'n golygu'r gweithrediadau hynny a nodir yn adran 6A PPERA. Nid yw'r Cod hwn yn cynnwys rhestr lawn gan ei bod yn destun newid. Gellir dod o hyd i restr gyflawn o ddigwyddiadau etholiadau perthnasol yn y canllawiau a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Etholiadol.

Pan fod y Cod hwn yn cyfeirio at 'arsyllwyr achrededig', mae'n golygu'r rhai sydd wedi'u hachredu gan y Comisiwn Etholiadol i arsylwi digwyddiadau etholiadol.

Pan fod y Cod hwn yn cyfeirio at 'arsyllwyr unigol', mae'n golygu unigolion sydd wedi'u hachredu gan y Comisiwn Etholiadol.

Pan fod y Cod hwn yn cyfeirio at 'arsyllwyr enwebedig', mae'n golygu unigolion sydd ar restr sefydliadau achrededig o arsyllwyr enwebedig.

---

[1] 'Refferendwm perthnasol' yw refferendwm a gynhelir o dan Ran 7 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA)

[2] 'Swyddogion perthnasol' o fewn ystyr adran 6E PPERA

Pan fydd y Cod hwn yn cyfeirio at ‘arsyllwyr’, mae’n golygu’r rhai sydd wedi’u hachredu gan y Comisiwn Etholiadol i arsylwi digwyddiadau etholiadol a staff y Comisiwn Etholiadol sy’n cynnal arsylwadau mewn digwyddiadau etholiadol.

Pan fydd y Cod hwn yn cyfeirio at ‘swyddogion perthnasol’, mae’n golygu’r rhai a restrir yn adran 6E PPERA. Nid yw’r Cod hwn yn cynnwys rhestr lawn gan ei bod yn destun newid. Gellir dod o hyd i restr gyflawn o Swyddogion Perthnasol yn y canllawiau a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Etholiadol.

**Diben y Cod hwn**

Mae’r ddogfen hon yn amlinellu’r broses achredu, yn ogystal â hawliau a rhwymedigaethau arsyllwyr mewn digwyddiadau etholiadol yn y DU.

Mae Adran 6A PPERA yn caniatáu i arsyllwyr achrededig fod yn bresennol yn y gweithrediadau a nodir yn Adran 3 gan eu bod yn ymwneud â digwyddiadau etholiadol yn y DU sydd wedi’u nodi mewn deddfwriaeth ac sydd wedi’u rhestru yng nghanllawiau’r Comisiwn Etholiadol.

Nid yw hawl arsyllwyr achrededig i fod yn bresennol mewn digwyddiadau etholiadol yn ymestyn i arsylwi’r Comisiwn Etholiadol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, na swyddogaethau cofrestru etholiadol awdurdod lleol.

Mae’r Cod yn esbonio sut i ddod yn arsyllwr achrededig, gan gynnwys gofynion cymhwysedd a’r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan arsyllwyr. Mae’r Cod hefyd yn darparu canllawiau i swyddogion etholiadol o ran gweithio gydag arsyllwyr.

Mae’r Cod hwn yn berthnasol i unigolion achrededig, sefydliadau achrededig a’r rhai sy’n eu cynrychioli, a staff y Comisiwn Etholiadol sy’n cynnal arsylwadau etholiadol.

## Y broses gwneud cais

**Cymhwysedd**

Mae dau fath o arsyllwr achrededig mewn digwyddiadau etholiadol yn y DU: unigolion a sefydliadau arsyllwyr. Gall unigolion a sefydliadau gael eu hachredu i arsylwi’r bleidlais, y dilysu a’r cyfrif a’r broses o gyhoeddi neu dderbyn pleidleisiau post mewn digwyddiadau etholiadol.

Gall unrhyw un dros 16 oed wneud cais i fod yn arsyllwr achrededig[3].

Gall unrhyw sefydliad wneud cais i fod yn sefydliad achrededig. Gall sefydliad achrededig enwebu unigolion i fod yn bresennol ar eu rhan mewn digwyddiadau etholiadol. Gall y Comisiwn Etholiadol ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau achrededig gynnal gwiriadau ar unigolion cyn eu henwebu a gall gyfyngu ar nifer yr arsyllwyr y gall sefydliad eu henwebu ar unrhyw un adeg. Ni all unigolyn fod yn arsyllwr enwebedig ar gyfer mwy nag un sefydliad ar unrhyw un adeg.

---

[3] A.6C(1) PPERA

Mae'n ofynnol i arsyllwyr achrededig weithredu'n ddiduedd yn wleidyddol bob amser yn ystod eu cyfnod achredu.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynnal cofrestr gyhoeddus o arsyllwyr achrededig a gyhoeddir ar-lein. Y gofrestr gyhoeddus hon yw'r unig restr swyddogol o arsyllwyr achrededig ac mae'n cynnwys enwau'r holl arsyllwyr achrededig.

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn rhoi ID i bawb sydd wedi'u nodi ar y gofrestr. Bydd manylion llawn y math o ID wedi'u nodi yn y canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Cod hwn.

**Cais**

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol am achredu unigolion a sefydliadau i arsylwi digwyddiadau etholiadol yn y DU.

Rhaid gwneud pob cais i fod yn arsyllwr achrededig i'r Comisiwn Etholiadol. Cyn gwneud cais, dylai ymgeiswyr ddarllen y Cod Ymarfer hwn a'r canllawiau a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Etholiadol ar gyfer arsyllwyr etholiadol.

Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw bryd. Gall y Comisiwn Etholiadol osod dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau cyn digwyddiadau etholiadol arwyddocaol. Ni ellir gwarantu y bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiadau cau hyn yn cael eu hasesu cyn y digwyddiad etholiadol.

Dylai ymgeiswyr gwblhau eu ceisiadau yn unol â'r broses a nodir yn y canllawiau a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Etholiadol ar gyfer arsyllwyr etholiadol.

Os gwrthodir cais, rhoddir y rheswm/rhesymau dros y gwrthodiad yn ysgrifenedig. Mae hawl i apelio.

**Meini prawf gwneud penderfyniadau**

Cyn caniatáu cais, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn gymwys i fod yn arsyllwr a'i fod yn gallu cydymffurfio â'r gofyniad am ddidueddrwydd gwleidyddol.

Mae unigolyn yn gymwys i fod yn arsyllwr os ydynt:

a) dros 16 oed;

b) heb gael eu canfod na'u hadrodd yn euog (o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 nac unrhyw ddeddfwriaeth etholiadol arall yn y DU) o arfer etholiadol llygredig neu anghyfreithlon yn unrhyw le yn y DU; a

c) heb gael eu hachrediad wedi'i ddirymu gan y Comisiwn Etholiadol o fewn y pum mlynedd diwethaf.

Gellir gwrthod cais os nad yw'r Comisiwn Etholiadol yn fodlon bod yr ymgeisydd yn ddiduedd yn wleidyddol.

Gellir gwrthod cais os nad yw'r Comisiwn Etholiadol yn fodlon na fydd yr ymgeisydd yn tarfu ar y gweithrediadau etholiadol nac yn achosi niwed i enw da'r Comisiwn Etholiadol neu'r Cynllun Arsyllwyr Etholiadol.

Mae canllawiau'r Comisiwn Etholiadol yn cynnwys rhagor o fanylion am y meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau.

## Safonau ar gyfer arsyllwyr

Disgwylir i bob arsyllwr achrededig gydymffurfio â'r safonau ymddygiad a nodir yn y Cod hwn a chanllawiau'r Comisiwn Etholiadol.

Gall achrediad arsyllwyr achrededig sy'n methu â chydymffurfio â'r safonau ymddygiad a nodir yn y Cod hwn gael ei ddirymu.

**Ymddygiad arsyllwyr etholiadol**

Rhaid i bob arsyllwr achrededig gydymffurfio â'r egwyddorion canlynol:

- Parchu cyfreithiau'r Deyrnas Unedig ac awdurdod cyrff etholiadol
- Bod yn wleidyddol ddiduedd trwy'r amser
- Cynnal cyfrinachedd y bleidlais
- Peidio â rhwystro'r broses etholiadol
- Darparu dull adnabod priodol pan fo angen
- Cynnal cywirdeb arsylwadau a phroffesiynoldeb wrth ddod i gasgliadau
- Cynnal ymddygiad personol priodol.

**Methu â bodloni'r safonau**

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn dirymu achrediad os canfyddir neu os adroddir bod arsyllwr unigol, sefydliad neu arsyllwr enwebedig yn euog (o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu unrhyw ddeddfwriaeth etholiadol arall yn y Deyrnas Unedig) o arfer etholiadol llygredig neu anghyfreithlon yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig.

Gellir tynnu arsyllwyr achrededig sy'n arddangos ymddygiad aflonyddgar mewn digwyddiad etholiadol o'r gweithrediadau etholiadol.

Rhaid i arsyllwyr achrededig barchu awdurdod Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Llywyddu a Swyddogion Cyfrif. Mae pŵer swyddogion perthnasol i dynnu arsyllwyr achrededig o ganlyniad i ymddygiad aflonyddgar neu gamymddygiad yn ychwanegol at eu pŵer cyffredinol i gadw trefn yn y gweithrediadau etholiadol perthnasol. Mae arsyllwyr achrededig yn destun cyfarwyddiadau cyfreithlon Swyddogion Perthnasol.

Os caiff arsyllwr achrededig ei dynnu o weithrediad etholiadol penodol, gall y Comisiwn Etholiadol ddirymu ei achrediad os ystyrir nad oedd yr unigolyn yn cydymffurfio â'r Cod hwn a'r safonau a nodir ynddo.

Gall achrediad sefydliadau y mae eu harsyllwyr enwebedig yn arddangos ymddygiad aflonyddgar gael ei ddirymu hefyd os nad yw'r sefydliad yn tynnu'r unigolyn oddi ar ei restr o unigolion enwebedig ar unwaith.

Bydd yr unigolyn neu'r sefydliad yn cael gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad yr adolygiad achredu. Pan gaiff achrediad ei ddirymu, bydd y rheswm/rhesymau dros y dirymiad yn cael eu nodi'n ysgrifenedig. Mae hawl i apelio.

## Hwyluso arsylwi etholiadol

**Mynediad i weithdrefnau etholiadol**

Mae arsylwi etholiadol yn rhan gyfreithlon a gwerthfawr o’r broses etholiadol a dylid cymryd gofal i beidio â rhwystro unrhyw arsyllwyr achredededig na staff y Comisiwn Etholiadol sy’n cynnal arsylwadau.

Mae gan arsyllwyr achredededig hawl i arsylwi gweithrediadau mewn digwyddiad etholiadol. Mae ganddynt hawl i arsylwi:

- Cyhoeddi neu dderbyn papurau pleidleisio drwy’r post[4]
- Yr etholiad
- Dilysu a chyfrif pleidleisiau.

Mae gan arsyllwyr unigol sydd wedi’u hachredu gan y Comisiwn Etholiadol hawl hefyd i fod yn bresennol yn cyfrif mewn deiseb adalw[5].

**Rheoli mynediad at weithdrefnau etholiadol**

Gall Swyddogion Perthnasol gyfyngu ar nifer yr arsyllwyr achredededig a all fod yn bresennol ar unrhyw adeg mewn gweithrediad etholiadol[6].

Ni chaiff Swyddogion Perthnasol eithrio na chyfyngu ar nifer arsyllwyr staff y Comisiwn a all fod yn bresennol mewn gweithrediad etholiadol.

Ni ddylai Swyddogion Perthnasol eithrio pob arsyllwr achredededig o’r gweithrediadau etholiadol. Dylid cyfyngu ar niferoedd dim ond pan fod presenoldeb arsyllwyr achredededig yn, neu’n debygol o:

- rhwystro cynnal gweithdrefnau etholiadol;
- peryglu cyfrinachedd y bleidlais;
- peryglu diogelwch y lleoliad neu’r rhai sy’n bresennol; neu
- peryglu iechyd a diogelwch y rhai sy’n bresennol.

Ni ddylid gwneud penderfyniad i gyfyngu ar nifer yr arsyllwyr achredededig sy’n bresennol mewn gweithrediadau etholiadol yn afresymol.

Nid yw’r ddyletswydd ar Swyddogion Perthnasol i ganiatáu presenoldeb arsyllwyr achredededig ac arsyllwyr staff y Comisiwn yn tynnu oddi ar y ddyletswydd i gydymffurfio â’r rheolau etholiad a refferendwm perthnasol ynghylch presenoldeb pobl mewn

---

[4] O dan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001 a deddfwriaeth gyfatebol

[5] Rheoliad 150 Rheoliadau Deddf Adalw Aelodau Seneddol 2015 (Deiseb Adalw) 2016

[6] Adran 6E PPERA

gweithrediadau etholiadol. Mae’r Comisiwn yn darparu canllawiau manwl i Swyddogion Perthnasol ar eu dyletswyddau a’u rhwymedigaethau ehangach.

**Ymdrin ag ymddygiad aflonyddgar**

Mae gan Swyddogion Perthnasol bŵer cyffredinol i gadw trefn mewn gweithrediadau etholiadol[7].

Gall Swyddogion Perthnasol, ar unrhyw adeg yn ystod y gweithrediadau etholiadol, ddiswyddo arsyllwr achrededig sy’n arddangos ymddygiad aflonyddgar[8].

## Canllawiau pellach

Mae’r Comisiwn Etholiadol hefyd yn cyhoeddi canllawiau anstatudol ar gyfer arsyllwyr achrededig ac ar gyfer swyddogion perthnasol. Mae hyn yn nodi manylion pellach am y Cynllun Arsyllwyr Etholiadol, pa etholiadau sy’n cael eu cynnal a pha gyfreithiau sy’n berthnasol. Gellir dod o hyd i’r rhain ar wefan y Comisiwn Etholiadol.

[7] Adran 23 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

[8] Adran 6E PPERA